Enw'r myfyriwr
E-bost
Ffôn Symudol

Prifysgol Caerdydd
Dr xxxx
Eu Cyfeiriad
CF10 3AT

Dirwnod Mis Blywddyn

Annwyl Dr. xxxxx,

Rwy'n ysgrifennu atoch chi i fynegi diddordeb yn yr interniaeth haf ymchwil Dysgu trwy Chwarae yn Ystod Plentyndod Cynnar (81), a hysbysebir ar Gyfrif Dyfodol Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Rwy’n fyfyriwr Seicoleg yr ail flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, rwy’n ymroddgar i ystyried y cymhlethdodau sy’n gysylltiedig â seicoleg ddatblygiadol, yn benodol sut mae profiadau yn ystod plentyndod cynnar yn llywio datblygiad gwybyddol a chymdeithasol plant.

Dechreuodd fy niddordeb am eich gwaith ymchwil mewn seminar yn ystod fy mlwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd y cipolwg hwn yn agoriad llygaid i mi, ac mae’r interniaeth hon yn gyfle delfrydol i wella fy nealltwriaeth ac i roi fy sgiliau ymarferol ar waith mewn awyrgylch sy’n canolbwyntio ar ymchwil. Byddai'r wybodaeth y bydda i’n ei hennill yn gwella fy mlwyddyn ar leoliad sydd ar y gweill yng Ngwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed GIG Bae Abertawe, ac yn fy helpu i gyflawni’r nod o roi ymchwil ddatblygiadol ar waith mewn ymarfer clinigol yn y GIG ac mewn lleoliadau therapi preifat.

O ran fy astudiaethau, rwy wedi dangos rhagoriaeth ym modiwlau Seicoleg Ddatblygiadol (78%)a Dulliau Ymchwil ym maes Seicoleg (85%), gan ennill dealltwriaeth gynhwysfawr o ddatblygiad gwybyddol cynnar a chymdeithasol. Mae gen i sgiliau da mewn cynnal a dadansoddi data ymchwil, profiad o ddefnyddio adnoddau dadansoddi ystadegol, megis IBM SPSS ac Excel ar gyfer dadansoddi data ansoddol a data meintiol.

Ym Mhrifysgol Caerdydd, bues i’n gweithio ar brosiect ar y cyd yn ystyried ymddiriedaeth a thwyll mewn negeseuon SMS-rwydo, ble bûm yn defnyddio technegau llwybr llygaid, a chadw a rheoli data yn fanwl. Bues i hefyd yn gweithio ar brosiect ymchwil seicoleg Safon Uwch, yn cynnal ymchwiliad i’r effaith o ryngweithio cymdeithasol rhwng staff a phlant anabl mewn cartrefi plant amddifaid yn Rwsia. Daeth y prosiect ymchwil hwn i ben gyda phapur ymchwil fanwl a chyflwyniad grŵp. Mae’r profiadau hyn wedi dwyn i’r amlwg fy ngallu i gynllunio arbrofion effeithiol ac i gyfleu gwybodaeth gymhleth wyddonol yn effeithiol.

Y tu hwnt i waith ymchwil, mae gen i dair blynedd o brofiad yn cefnogi plant mewn gwahanol leoliadau plentyndod cynnar. Tra roeddwn i’n gweithio’n Gynorthwyydd Addysgu rhan-amser, bues i’n asesu cynnydd plant a rhoi protocolau diogelu ar waith, a datblygu gweithgareddau dysgu deniadol. Datblygais i fy sgiliau ymhellach yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant a’u teuluoedd wrth weithio’n Gynorthwyydd Addysgu, gan sicrhau awyrgylch cefnogol ac anogol. Rwy'n awyddus i ddod â fy sgiliau ymchwil, hyfedr mewn dadansoddi data, a phrofiad ymarferol o weithio gyda phlant i'ch tîm. Rwy'n teimlo’n hyderus y bydd fy nghefndir a'm brwdfrydedd tuag at seicoleg ddatblygiadol yn fy helpu i gyfrannu’n ystyrlon i’r prosiect Dysgu Trwy Chwarae yn Ystod Plentyndod Cynnar.

Diolch yn fawr i chi am ystyried fy nghais. Edrychaf ymlaen at y posibilrwydd o drafod sut mae fy mhrofiadau a'm dyheadau yn cyd-fynd â nodau eich tîm ymchwil yn ystod y cam cyfweld.

Yn gywir,

Enw llawn y myfyriwr